


SWEPT

Prosiect Gwirfoddoli SWEPT (*Surveying the Waterway Environment for Pollution Threats*) 2018-19

Bydd prosiect gwirfoddoli SWEPT 2018-19 yn recriwtio gwirfoddolwyr gwyddoniaeth o blith dinasyddion ac yn eu trefnu a'u hyfforddi i gasglu data amgylcheddol yn Nyfrffordd y Daugleddau. Defnyddir y data hwn (gan gynnwys canlyniadau profi samplau dŵr am nitradau a ffosffadau) er mwyn cael gwell dealltwriaeth o effeithiau dŵr ffo sy'n rhedeg oddi ar y tir, ar yr amgylchedd morol, ac i arwain at welliannau amgylcheddol.



Kyoritsu PackTest bydd gwirfoddolwyr yn defnyddio pecynnau nitradau i fesur lefelau llygredd. Maent yn ffordd syml, cyflym a chost-effeithiol o ganfod llygredd maetholion, yn enwedig mewn arolygon mawr ar draws y dirwedd lle mae costau dadansoddi labordy yn aml yn afresymol.

Dynodwyd y Ddyfrffordd ei hun yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA – Safle Morol Ewropeaidd) a hefyd, ar hyd y blaendraeth, yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Ar hyn o bryd, mae ACA Sir Benfro Forol (sy'n ymestyn o amgylch arfordir Penfro ac oddi ar y lan) mewn cyflwr anffafriol o fewn y Ddyfrffordd, yn rhannol oherwydd llygredd maethynnau. Mae llygredd maethynnau yn ganlyniad i ddŵr ffo sy'n rhedeg oddi ar dir amaethyddol gan gludo gwrtaith a charthion. Ar hyn o bryd, nid yw rhan fewnol Dyfrffordd Aberdaugleddau (Afon Penfro ac i fyny'r afon) yn cyrraedd statws 'Da', sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr erbyn 2027. Fel mater o drefn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn casglu gwybodaeth am hyn, ond mae yna ddiffyg data ar ffynonellau llygredd lleol. Bydd mwy o ddata yn gymorth i adnabod meysydd problematig ac yn gymorth i dargedu ymdrechion rheoli effeithiol yn y ffordd orau. Bydd data gan wirfoddolwyr, felly, yn ategu at waith monitro statudol Cyfoeth Naturiol Cymru, ac yn ychwanegu at y sail dystiolaeth y gall Cyfoeth Naturiol Cymru seilio penderfyniadau ynghylch rheolaeth arnynt. Cyflwynir y data a gesglir mewn adroddiad terfynol a chaiff ei ddarparu hefyd trwy gydol y prosiect i staff lleol Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn bwydo camau atal llygredd ar y pryd.



Twf macroalgâu (gwymon) toreithiog wrth iddynt fanteisio ar lefelau maethynnau uwch ar fflatiau llaid o fewn Dyfrffordd y Daugleddau. (CNC)

Y gobaith yw recriwtio tua 18 pâr o wirfoddolwyr i gerdded 18 darn o flaendraeth y Ddyfrffordd gan nodi unrhyw fygythiad o lygredd a chynnal profion *yn y fan a'r lle* ar unrhyw fewnbynau dŵr croyw am lygredd nitradaidd a ffosffad. **Disgwylir i bob gwirfoddolwr ddychwelyd at yr un darn o'r Ddyfrffordd i ail-wneud eu harolwg ar 4 achlysur rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Chwefror 2019.** Yn ychwanegol at hyn, bydd 4 gweithgaredd grŵp yn y dŵr a 4 gweithgaredd grŵp ar y lan (â ffocws addysg) yn cynnwys mwy o wirfoddolwyr ac yn arwain at fwy o samplau prawf a data o fewn ardal yr astudiaeth.

Caiff gwirfoddolwyr eu recriwtio rhwng mis Awst a mis Medi 2018, a chynhelir hyfforddiant ym mis Hydref a gweithgarwch maes rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Chwefror 2019. Bydd y prosiect ar waith rhwng mis Gorffennaf 2018 a mis Rhagfyr 2019 a chaiff ei ariannu gyda grant gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru hefyd yn darparu cymorth ariannol.

Cynhelir SWEPT 2018-19 ar gymaint o'r draethlin â phosibl o fewn ardal Dyfrffordd fewnol y Daugleddau. Mae'r ardal yn cynnwys Afon Penfro, Cilfach Cosheston, Afonydd y Caerw a'r Cresswell yn ogystal â Dwyrain a Gorllewin y Cleddau. Mae'r ardal gyfan hon o fewn ACA Sir Benfro Forol, sy'n ymestyn i fyny'r Ddyfrffordd at derfynau'r llanw.

Arweinir SWEPT gan Swyddog ACA Sir Benfro Forol, a chaiff ei weithredu ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru, Fforwm Arfordir Sir Benfro a Chanolfan Darwin.

Nod SWEPT yw gwella gwydnwch ac ansawdd y Ddyfrffordd trwy well rheolaeth, ar sail y data a'r gwaith codi ymwybyddiaeth sy'n deillio o'r prosiect. Mae angen codi ymwybyddiaeth ynghylch effaith dŵr ffo ar yr amgylchedd morol a gobeithir y bydd hyn yn arwain at newid ymddygiad a gostwng llygredd o ganlyniad i faethynnau o fewn y Ddyfrffordd, gan sicrhau gwell statws ecolegol i Ddyfrffordd y Daugleddau a gwella cyflwr ACA Sir Benfro Forol.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Sue Burton, Swyddog ACA Sir Benfro Forol, ar 01646 696108 / 07881 334047 neu sue@pembrokeshiremarinesac.org.uk

